Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

Polisi a Gweithdrefn Rheoli Digwyddiad Diogelwch Gwybodaeth

Cynnwys

1. Cyflwyniad a diffiniadau 3
2. Mathau o ddigwyddiadau 4
3. Ystyried risgiau 4
4. Y weithdrefn 5
5. Cyfyngu ac adfer (cam 1) 7
6. Asesu'r risg (cam 2) 7
7. Hysbysiad o'r achos o dor diogelwch (cam 3) 9
8. Gwerthuso ac ymateb (cam 4) 10
9. Monitro ac adolygu 10
10. Atodiad un: siart llif o'r gofynion hysbysu 12

1. Cyflwyniad a diffiniadau

1.1 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Yr Ombwdsmon) yn cadw swm mawr o ddata personol a gwybodaeth categorïau arbennig. Mae'n rhaid i bob aelod o staff gymryd pob gofal i ddiogelu'r wybodaeth hon. Os bydd data yn cael ei golli neu'n cael ei rannu'n amhriodol, mae'n rhaid i ni gymryd camau priodol i leihau unrhyw risgiau cysylltiedig.

1.2 Cyfeirir at golli neu rannu data yn amhriodol, yn wirioneddol neu'n amheus yn y ddogfen fel 'digwyddiad diogelwch gwybodaeth'

1.3 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno gweithdrefn yr Ombwdsmon ar gyfer ystyried digwyddiadau sy'n arwain at dor diogelwch data personol Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) neu'r Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR) a chyfreithiau cysylltiedig. Mae'r broses yn seiliedig ar ganllawiau'r ICO[1] a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Weithgor Diogelu Data Erthygl 29[2].

1.4 Gall digwyddiad diogelwch gwybodaeth effeithio ar gyfrinachedd, integredd neu argaeledd data. Mae'n rhaid asesu digwyddiad yn gyflym i sefydlu a fu achos o dor diogelwch data personol.

1.5 Diffinnir tor diogelwch data personol fel:

> …tor diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, addasu, datgeliad anawdurdodedig, neu fynediad at, ddata personol. Mae hyn yn cynnwys tor diogelwch o ganlyniad i achosion damweiniol a bwriadol. Mae hefyd yn golygu bod y tor diogelwch yn fwy na cholli data personol yn unig.[1]

1.6 Gall asesiad ddod i'r casgliad nad oedd yn achos o dor diogelwch data personol. Fodd bynnag, mae'r asesiad yn darparu cyfle i adolygu mesurau sefydliadol a thechnegol er mwyn lliniaru risgiau posibl yn y dyfodol.

[1] Canllawiau'r ICO ar dor diogelwch data personol

[2] Gweithgor Erthygl 29: Canllawiau ar hysbysu dor diogelwch data personol (Diwygiwyd a Mabwysiadwyd 6 Chwef 2018)

2. Mathau o ddigwyddiadau

2.1 Gall enghreifftiau o ddigwyddiadau gynnwys:

- Mynediad gan drydydd parti anawdurdodedig.
- Gweithred (neu ddiffyg gweithredu) bwriadol neu ddamweiniol.
- Anfon data personol at dderbynnydd anghywir neu heb awdurdod priodol.
- Dyfeisiau sy'n cynnwys data personol yn cael eu colli neu eu dwyn.
- Addasu data personol heb ganiatâd.
- Colli argaeledd data personol, er enghraifft, am ei fod wedi'i amgryptio gan feddalwedd wystlo, neu ddata sydd wedi'i golli neu ei ddinistrio'n ddamweiniol.

3. Ystyried risgiau

3.1 Mae yna risgiau unigol a sefydliadol y mae angen eu hystyried wrth ymchwilio i ddigwyddiad. Gallai cyfaddawdu cyfrinachedd gwybodaeth, integredd neu argaeledd data arwain at:

- niwed i enw da,
- effaith niweidiol ar ddarparu gwasanaeth,
- niwed i unigolyn/unigolion,
- diffyg cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol, a/neu
- costau ariannol.

3.2 Wrth ystyried y canlyniadau negyddol posibl i unigolion mae Datganiad 85 GDPR yn esbonio:

> "Gall tor diogelwch data personol, os nad eir i'r afael ag ef mewn dull priodol ac amserol, arwain at niwed corfforol, perthnasol ac amherthnasol i'r [unigolyn]..."

3.3 Mae Datganiad GDPR yn darparu rhestr o ganlyniadau posibl i'r unigolyn:

- Colli rheolaeth dros eu data personol.
- Cyfyngiadau i'w hawliau.
- Gwahaniaethu.
- Dwyn neu dwyll hunaniaeth.
- Colled ariannol.
- Gwyrdroi gwybodaeth yn amhriodol a oedd o dan ffugenw.
- Niwed i enw da.
- Colli cyfrinachedd.
- Unrhyw anfantais economaidd neu gymdeithasol arwyddocaol arall.

3.4 Mae'r Weithdrefn yn ceisio lliniaru'r risgiau hyn drwy sicrhau:

- Bod pob aelod o staff, contractwyr a defnyddwyr trydydd parti yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer adrodd digwyddiadau a'u cyfrifoldeb i adrodd yn brydlon unrhyw ddigwyddiad maent wedi'i weld neu maent yn ei amau, neu bryder ynglŷn â diogelwch gwybodaeth.
- Yr eir i'r afael ag unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon a adroddir, a hynny'n unol â'r weithdrefn hon.
- Yn dilyn adferiad o'r digwyddiad, bod rheolaethau presennol yn cael eu harchwilio er mwyn penderfynu ar eu digonolrwydd, a bod camau cywirol yn cael eu cymryd er mwyn lleihau'r risg y bydd digwyddiadau tebyg yn digwydd.
- Systemau ar waith i alluogi i'r mathau, symiau a chostau digwyddiadau diogelwch gwybodaeth cael eu mesur, eu monitro a'u hadrodd.

4. Y weithdrefn

4.1 Mae gweithdrefn yr Ombwdsmon ar gyfer asesu digwyddiadau diogelwch gwybodaeth yn cael ei rhannu i'r pedwar cam canlynol:

i) Cyfyngu ac adfer.

ii) Asesu'r risg.

iii) Hysbysu.

iv) Gwerthuso ac ymateb.

4.2 Dylid cwblhau Ffurflen Ymchwilio i Ddigwyddiad er mwyn dangos y camau a gymerwyd.

4.3 Mae'r grŵp o bobl sy'n gyfrifol am ymateb i ddigwyddiadau sydd wedi'u hadrodd yn cynnwys:

• y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Gwelliannau (COODOI).
• Prif Gynghorydd Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Ymchwiliadau (CLADOI).
• y Pennaeth Gwasanaethau TG.
• Rheolwr perthnasol ar gyfer y gwasanaeth.
• y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth.

4.4 Dylid adrodd unrhyw ddigwyddiad i'r Pennaeth TG ac aelod o'r Tîm Rheoli cyn gynted ag y daw i'r amlwg gan ddefnyddio'r Ffurflen Ymchwilio i Ddigwyddiad. Dylid rhoi gwybod am unrhyw faterion seiberddiogelwch i'r Rheolwr TG ar unwaith, er enghraifft os cliciwyd mewn camgymeriad ar ddolen gwe-rwydo mewn e-bost neu unrhyw risg anawdurdodedig. Mae angen i TG gymryd camau brys i ddiogelu rhwydwaith OGCC.

4.5 Dylai'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth a / neu'r Rheolwr perthnasol hysbysu'r COODOI a'r CLADOI cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r mater.

4.6 Bydd y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yn cofnodi'r mater yn ganolog, a bydd yn monitro cynnydd i reoli ac ymchwilio i'r digwyddiad.

4.7 Mae'r Ffurflen Ymchwilio i Ddigwyddiad ar gael o dudalennau'r Ddesg Gymorth Llywodraethu Gwybodaeth ar YR HWB.

5. Cyfyngu ac adfer (cam 1)

5.1 Dylai'r aelod o staff, y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth neu aelod o'r Tîm Rheoli gymryd camau ar unwaith i gyfyngu'r digwyddiad, yn seiliedig ar natur y tor diogelwch. Dylid cofnodi unrhyw gamau gweithredu yn adran 1 y Ffurflen Ymchwilio i Ddigwyddiad.

5.2 Darperir enghraifft o gamau a gymerwyd i adfer / cyfyngu'r digwyddiad isod.

Os bydd y digwyddiad yn ymwneud â phost wedi'i gamgyfeirio, dylid cysylltu â'r derbynnydd i drefnu i'w adfer:

- Os bydd yn electronig, dylid gofyn i'r derbynnydd gadarnhau bod y neges wedi'i dileu'n barhaol (gan gynnwys o'u ffolder e-bost Eitemau wedi'u Dileu).
- Os drwy'r post, dylid gwneud trefniadau i'r deunydd gael ei ddychwelyd i'r swyddfa hon (yr Ombwdsmon i ddarparu amlen ddychwelyd) neu i aelod o staff ei gasglu os yw'n lleol neu drwy negesydd [bydd yr union ddull hwn yn ddibynnol ar natur y digwyddiad a'r deunydd dan sylw].

5.3 Pan fydd y digwyddiad yn ymwneud â gwefan yr Ombwdsmon, dylai'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth a'r Pennaeth TG ystyried a oes angen hysbysu darparwyr y wefan a'r Tîm Polisi a Chyfathrebu. Bydd angen diwygio neu ddileu gwybodaeth ar unwaith, yn ôl yr angen.

5.4 Pan fydd y digwyddiad yn ymwneud â systemau neu gronfeydd data mewnol yr Ombwdsmon, dylai'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth a'r Pennaeth TG ystyried hefyd a oes angen hysbysu darparwyr cymorth a systemau TG.

6. Asesu'r risg (cam 2)

6.1 Ar ôl cyfyngu/adfer, dylai'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth a'r Rheolwr perthnasol gynnal asesiad o'r risg sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad, gan ddefnyddio'r Ffurflen Asesu ac Ymateb.

6.2 Bydd y Ffurflen Asesu ac Ymateb yn ystyried y canlyniadau niweidiol posibl i unigolion, yn seiliedig ar ddifrifoldeb a pha mor debygol y maent o ddigwydd.

Bydd y ffactorau canlynol yn cael eu hasesu:

- Math o dor diogelwch (h.y. cyfrinachedd, integredd, argaeledd).
- Math, sensitifrwydd a'r swm o ddata.
- Nifer yr unigolion sydd wedi'u heffeithio.
- Diogelwch data.
- Rhwyddineb adnabod.
- Difrifoldeb y canlyniadau / niwed posibl a allai ddigwydd, gan gynnwys:
  - Colled ariannol.
  - Gofid.
  - Enw da.
  - Dwyn hunaniaeth.
  - Gwahaniaethu.
  - Colli cyfrinachedd.
  - Gwyrdroi ffugenw yn ddiawdurdod.
- Unrhyw rinweddau arbennig sydd gan yr unigolyn/unigolion.
- Difrifoldeb y canlyniadau i'r Ombwdsmon.

6.3 Dywed Gweithgor Erthygl 29:

> Mae'r risg hon yn bodoli pan allai tor diogelwch arwain at niwed corfforol, perthnasol neu amherthnasol i'r unigolion y torrwyd diogelwch eu data.[2]

6.4 Mae angen ystyried achosion ar sail achosion unigol, gan ystyried gofid emosiynol posibl, a niwed corfforol a pherthnasol. Bydd rhai digwyddiadau neu dor diogelwch ond yn debygol o achosi anghyfleustra posibl i staff yr Ombwdsmon.

Efallai y bydd eraill yn cael effaith sylweddol ar yr unigolyn y mae eu data wedi'i gyfaddawdu.

6.5 Ar ôl cynnal asesiad cychwynnol dylid trafod y broses barhaus o reoli'r digwyddiad gyda'r COODOI a'r CLADOI.

7. Hysbysiad o'r achos o dor diogelwch (cam 3)

7.1 Bydd trafodaethau gyda'r COODOI a'r CLADOI yn penderfynu'r camau i'w cymryd yng nghamau 3 a 4 (Hysbysu a Gwerthuso).

7.2 Mae Cam 3 yn cynnwys penderfynu pwy ddylid eu hysbysu ynghylch yr achos o dor diogelwch, yn seiliedig ar yr asesiad o risg.

7.3 Mae Erthygl 33 GDPR yn ei gwneud yn orfodol i hysbysu'r ICO ynglŷn â thor diogelwch oni bai y bydd yn annhebygol y byddai'r tor diogelwch yn arwain at risg i hawliau a rhyddid unigolion. Mae'n bwysig cofnodi'r rhesymeg sy'n sail i'r penderfyniad hwn.

7.4 Os bydd yr Asesiad Risg yn canfod bod risg uchel y bydd yr unigolion mewn risg, dylid hysbysu'r ICO heb oedi gormodol. Pan fo'n ymarferol, o fewn 72 awr o fod yn ymwybodol o'r digwyddiad. Dylid hysbysu'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) yn achos digwyddiad seiberddiogelwch a gellir rhoi gwybod amdano drwy Action Fraud.

7.5 Mae Erthygl 34 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion gael eu gwybod am unrhyw dor diogelwch sy'n debygol o greu risg uchel i'w hawliau a'u rhyddid, a hynny heb oedi gormodol.

7.6 Os mai canlyniad yr asesiad risg yw bod lefel y risg yn ganolig, yna dylid ceisio cyngor gan yr ICO. Yn achos digwyddiad seiberddiogelwch, bydd angen ystyried ceisio cyngor gan yr NCSC ac adrodd am y digwyddiad i Action Fraud.

7.7 Gall cwblhau'r ffurflen hunan-asesu'r ICO helpu i asesu risg. Gall galwad ffôn iddynt i drafod y digwyddiad fod yn ddefnyddiol hefyd gan y gallant gynnig cyngor ar reoli'r risg a lliniaru ei effaith. Os bydd angen, byddant yn cymryd manylion y toriad dros y ffôn.

7.8 Os gwneir penderfyniad i hysbysu'r ICO, dylai'r Ombwdsmon ddefnyddio Ffurflen Hysbysiad o Dor Diogelwch yr ICO. Mae Siart Llif Hysbysu Gweithgor Erthygl 29 ar gael hefyd ar ddiwedd y ddogfen hon, yn ogystal â'r matrics risg.

8. Gwerthuso ac ymateb (cam 4)

8.1 Mae Adran 4 y Ffurflen Ymchwilio i Ddigwyddiad yn nodi unrhyw gamau gweithredu i'w dilyn yn dilyn y digwyddiad - er enghraifft, newidiadau i bolisïau, prosesau neu ganllawiau neu ddatblygiadau i systemau TG. Pan fo'n bosibl, dylid aseinio'r camau gweithredu hyn hefyd i aelod o staff eu cwblhau.

8.2 Y rheolwr llinell fydd yn ystyried unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol (anffurfiol neu ffurfiol) mewn cysylltiad ag aelod o staff a allai fod wedi bod yn gysylltiedig â'r digwyddiad. Mae OGCC wedi ymrwymo i sicrhau bod diwylliant lle mae staff yn teimlo y gallant roi gwybod am gamgymeriadau. Mae cynnwys staff yn y broses rheoli digwyddiadau yn bwysig er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu, a bod modd adnabod risgiau yn y dyfodol cyn gynted â phosibl, yn ogystal â'u lliniaru. Efallai y bydd hyfforddiant pellach yn cael ei drefnu, neu efallai y bydd canllawiau ychwanegol yn cael eu darparu. Lle bo'n briodol, dilynir y polisïau AD perthnasol, ond ni ddylid cynnwys unrhyw gamau sy'n ymwneud â pherfformiad staff yn y Ffurflen Ymchwilio i Ddigwyddiad, y gellir ei datgelu i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

8.3 Bydd y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yn diweddaru'r Gofrestr Digwyddiadau Diogelwch Gwybodaeth.

9. Monitro ac adolygu

9.1 Mae adroddiadau monitro Llywodraethu Gwybodaeth chwarterol i'r Tîm Rheoli yn darparu crynodeb o ddigwyddiadau, tor diogelwch ac unrhyw gamau lliniaru angenrheidiol.

9.2 Mae digwyddiadau ac achosion o dor diogelwch yn cael eu hadrodd hefyd ar sail chwarterol i ARAC.

9.3 Bydd y Polisi a'r Weithdrefn hyn yn cael eu hadolygu bob dwy flynedd.

10. Atodiad un: Siart llif o'r gofynion hysbysu[3]



[3] Yn seiliedig ar siart llif Gweithgor Erthygl 29 yn y Canllawiau A29WP (gweler troednodyn 2).